**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
**EBRILL 30AIN 2025 AM 7:30YH**
**CYNHALIWYD YM MHANDY TUDUR**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Sara Thomas (ST), Gwydion Jones (GJ), Euros Williams (EUW), John Harris (JH), Austin Roberts (AR) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

## 3 COFNODION MAWRTH 26AIN 2025 I'W GWIRIO

Cynigwyd yn gywir gan JH ac eiliwyd gan DR .

## 4 MATERION YN CODI

**4.1** Rheoliadau Ariannol – roeddynt wedi eu cylchredeg i bawb drwy e-bost yn dilyn eu trafod yn
yr is-bwyllgor diwethaf ac roedd pawb yn cytuno i'w derbyn.

**4.2** Cyfnewidfa hadau a phlanhigion – roedd y digwyddiad yma wedi ei gynnal ddydd Sadwrn diwethaf. Roedd yn braf gweld nifer o blanhigion ar gael i'w cyfnewid ond yn bechod na fyddai mwy o bobl wedi mynychu. Roedd rhai planhigion oedd ar ôl ac wedi eu rhoi i'r Clwb Garddio fel anrheg. Cafwyd rhoddion o £48.20 am y planhigion a roddwyd i '*Incredible Edible*'.

**4.3** Clwb Garddio – Penderfynwyd i gynnal taith o gwmpas y pentref yn y cyfarfod nesaf ble y gellir hel ysbwriel a thacluso yn gyffredinol. Mynegodd CWG ei bod wedi annog eraill i drefnu nosweithiau'r Clwb Garddio a dim ond un aelod o'r cyhoedd wnaeth drefnu noson. Roedd y cynghorwyr i gyd o'r farn y dylai CWG drefnu mis Mai a Mehefin a dim mwy yn dilyn hyn.

**4.4** Cyfarfod Agored 15/5/25 – mae trefniadau yn mynd yn eu blaenau gyda threfnu'r noson a CWG angen gofyn iddo gael ei roi ar *Class Dojo* eto. Gofynnodd CR os oedd angen cyfieithydd ar y pryd ar y noson a phenderfynwyd i CWG gysylltu gyda Menter Iaith Conwy i ofyn am argaeledd.

**4.5** Gofynnwyd i CR ofyn i'r cyfrifydd am hawlio T.A.W, dogfennu ar gyfer awdit y llynedd a thystysgrif sydd ei angen ar gyfer hawlio T.A.W ein hunain.

**4.6** Dwr Cymru – yn dilyn problem o ddiffyg dŵr ym mynwent Eglwys Llangernyw yn ystod y mis, trefnwyd cyfarfod gyda Dŵr Cymru er mwyn ceisio datrys y broblem. Roedd i fod i'w gynnal ddoe ond fe wnaeth Dŵr Cymru ohirio'r cyfarfod.

**4.8** Fan ym Mhandy Tudur - Gofynnodd AV beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ac atebodd GJ fod y fan yn dal i fod yno yn achosi rhwystr. Ychwanegodd ST bod lori wedi bod yn sownd ar yr allt ddoe gan nad oedd yn gallu pasio. Gofynnodd AR bwy sy'n berchen y tir a dywedodd fod angen iddynt roi arwyddion i fyny yn dweud ei fod yn dir preifat a dim parcio. Yna, dylai'r heddlu ymateb yn dilyn hyn. Gofynnodd MGD pa mor anodd fyddai cael dwy linell felen yno? Atebodd AR nad oes neb ar gael i'w blismona ond mae posib i rywun o'r adran briffyrdd ddod allan i weld os oes wir angen. Byddai'n costio tua £1,500 i osod y llinellau melyn felly'n ddrud ond mae posib i AR ofyn iddynt. Ychwanegodd os oes trafferth efo lori gan fod y fan wedi ei barcio ar y ffordd byddai hynny'n rheswm i roi'r llinellau. Gofynnwyd i CWG atgoffa perchennog y tir i roi yr arwydd i fyny.

**4.9** Dywedodd EW ei bod yn gwerthfawrogi gwaith CWG wrth ysgrifennu cofnodion ac ati a diolchwyd iddi gan CWG.

5 **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.3** Cais Rhif 0/52452 8 Parc Aelas, Llangernyw, LL22 8PJ
Dim sylwadau a phawb yn cymeradwyo.

6 **MATERION CYNGOR**

**6.1** Adroddiad Un Llais - pawb wedi ei weld ar e-bost a gafwyd gan DR. Un mater a godwyd yn y pwyllgor oedd bod angen i glercod wneud rhestr o gyfrineiriau a'u rhannu gyda 2 neu 3 cynghorydd.

7 **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

**7.1** Twmpathau brics yn Llangernyw – roedd y Cyngor Sir yn bwriadu rhoi tarmac yno yn eu lle ond maent yn helpu i arafu ceir. Dywedodd AR fod angen ystyried cadw'r twmpathau fel y maen nhw a chytunodd pawb gyda hyn. O ran cael rhagor o arwyddion cyflymder yn y pentref yna mae angen tystiolaeth o oryrru. Mae AR wedi gofyn am offer i fesur cyflymder ac mae angen penderfynu lle byddai'r lle gorau i'w roi. Penderfynwyd i'w osod wrth ymyl Parc Aelas a Glan Collen. Os yw'n bosib cael dau yna byddai'n dda ei osod wrth ymyl y Dalar Deg. Gofynnodd JH os yw'n bosib rhoi twmpathau mawr ar ffordd 'A' ac nid oedd AR yn meddwl bod hyn yn bosibl.

**7.2** Llwybr wrth ymyl y *Bridge* – nid yw AR yn rhagweld y bydd yn agor yn y ddeufis nesaf. Mae'r ffens wedi cael ei symud yn ôl i ble mae i fod. Dywedodd JH fod yr arwydd mawr fod y llwybr ar gau wedi mynd oddi-yno. Dywedodd AR y byddai'n gwirio os yw wedi agor.

**7.3** *Sweeper* yng Ngwytherin – mae ar y rhestr i gael ei wneud. Mae AR yn rhagweld y bydd o gwmpas ym mis Mehefin.

**7.4** Tacsi – mae AR wedi ceisio cysylltu gyda'r rhiant ac mae wedi gofyn iddi gysylltu ag ef iddo gael fwy o fanylion. Gofynnodd EW wrth AR os yw'r cyngor dal i fygwth y byddent yn codi tal cludiant ysgol ar ddisgyblion Bl.12 ac 13. Atebodd AR nad ydynt yn bwriadu gwneud hyn ar hyn o bryd ond mae'n debyg y byddent yn y dyfodol.

**7.5** Potyn blodau – gofynnodd DR beth sy'n digwydd o ran cael yr ad-daliad am y potyn blodau a ddifrodwyd ac atebodd AR fod angen dyddiad y digwyddiad. Dywedodd DR y byddai'n gyrru'r dyddiad iddo eto.

**7.6** Pont Llangernyw - er y gwaith ar y bont yn ailosod y cerrig ar y top sy'n cael ei werthfawrogi,
mae dal difrod ar y sylfeini yn dilyn yr holl law dros y gaeaf sy'n ei gwneud yn anniogel. Gofynnwyd i AR fynd i gwrdd Gwynfor Sŵn y Nant er mwyn iddo ddangos y difrod.

Gofynnwyd i AR hefyd i ofyn i'r Cyngor Sir os gellir marcio'r ffordd wrth ymyl Cefn Isa' a hefyd i osod arwydd i ddweud i arafu os yn dod o Wytherin.

Gofynnodd GJ os oes unrhywbeth yn digwydd o ran Pont Pandy ac atebodd AR nad oedd diweddariad. Mae wedi cael gair gyda phrif beiriannydd y Sir sydd wedi sicrhau ei fod am gael ei atgyweirio eleni ond nid oedd yn gallu rhoi dyddiad ar y pryd.

Gofynnodd DR a oedd Haul a Gwynt wedi cael caniatâd cynllunio ac atebodd AR y dylai ysgrifennu at Peter Wood yn y Cyngor Sir i ymholi.

## 8 MATERION ARIANNOL

**8.1** Adroddiad Chwarterol a Mantolen 2024-25 – Holodd DR pam fod dau daliad Un Llais wedi mynd allan yn ystod y flwyddyn ac atebodd CWG fod taliad y llynedd wedi ei dalu drwy siec ac felly wedi mynd allan yn y flwyddyn ariannol hon. Roedd taliad am 2025-26 wedi ei dalu ar-lein ac felly wedi mynd allan yn syth. Roedd pawb yn cytuno gyda phopeth arall.
**8.2** Llythyr drwy e-bost gan Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn gofyn am gyfraniad - penderfynwyd i beidio cyfrannu.
**8.3** Hysbysiad taliad praesept o £4,857.
**8.4** Gofynnodd MGD i roi cyflog Clerc ar agenda'r mis nesaf.

## 9 GOHEBIAETH

Wedi eu hanfon i bob cynghorydd er gwybodaeth:
**9.1** Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol Cymru
**9.2** Dyddiadau hyfforddiant Mawrth - Mehefin gan Un Llais Cymru
**9.3** Dweud eich dweud ar drafnidiaeth gyhoeddus
**9.4** Ymgysylltu a Phartneriaeth Cynghorau Tref a Chymuned - Cyngor Conwy
**9.5** Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2025 gan Un Llais
**9.6** Gwybodaeth am ddigwyddiad ar y cyd rhwng Un Llais a'r SLCC yn ymwneud a'r fframweithiau moesegol yng Nghymru a Lloegr
**9.7** Gwybodaeth am nifer o grantiau sydd ar gael i wahanol grwpiau o bobl. Mae'r wybodaeth wedi ei rannu ar yr hysbysfwrdd ar *facebook* hefyd.
**9.8** Gwahoddiad i Grŵp Peilot Bioamrywiaeth Un Llais Cymru -

Dywedodd DR ei bod wedi ceisio ymuno gyda'r grŵp Pethau Bychain ond yn cael trafferth gyda *TEAMS*. Roedd yn edrych fel cyfarfod buddiol yn sôn am forloi ond roedd popeth drwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

## 10 BILIAU

**10.1** Bil cyfieithu Enlli - £95
**10.2** Ad-daliad i CWG am gostau atgyweirio'r gliniadur - £60 + £12 T.A.W = £72
**10.3** Dei Evans am dorri gwair yn y mynwentydd - £470
Roedd pawb yn cytuno i dalu'r uchod i gyd.

## 11 MATERION LLEOL

**EW** Gofynnodd i gael rhoi blwch ffon Gwytherin ar agenda'r mis nesaf. Roedd wedi ei gadw gan nad oedd signal yn y pentref ond bellach mae'r signal llawer gwell. Mae trigolion yr ardal yn awyddus i edrych mewn i weld os gellir ei brynu os yw pobl yn fodlon edrych ar ei ôl.

**GJ** Gofynnodd am ddiweddariad ynglŷn â'r dŵr yng ngwaelod y ffordd a phenderfynwyd i CWG ofyn wrth AR.

**MGD** Dywedodd fod y signal ffon o gwmpas ei gartref yn llawer gwell erbyn hyn gan gynnwys signal 4G.

**DR** Gofynnodd am ganiatâd i wario pres ar flodau a chompost ac roedd pawb yn cytuno. Dywedodd EW y byddai'n gofyn i Charlie Whylie yng Ngwytherin os yw dal yn fodlon gwneud y blodau eleni.

**AV** Eglurodd bod siaradwr gwadd wedi dod i'r Eglwys fore ddoe i siarad am sut i arbed ynni yn y cartref. Roedd yn andros o fuddiol ac mae ganddi bamffledi gyda'r manylion cyswllt. Ychwanegodd bod damwain ffordd wedi bod dydd Sul diwethaf ar y trofeydd am Dŷ'n y Caeau a'i bod wedi gadael i Darren Millar wybod am y ddamwain. Nid yw dal wedi derbyn yr arwyddion ffordd sy'n gofyn i feiciau modur arafu.

**JR** Dywedodd ei bod angen ychwaneg o fagiau baw ci ac atebodd CWG fod ganddi rhai gartref ac mi wnaiff fynd a rhai iddi.

12 **CYFARFOD NESAF**

Mai 21ain 2025 yn Llangernyw.
Cyfarfod yn dod i ben am 21:10 .
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.